CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Congl Meinciau, Botwnnog, Nos Lun, 18fed Awst, 2025 o 6.00 y.h. hyd 6.40 y.h.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Glenys Williams

48. **CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES**
Diolchodd y Gadeiryddes i bawb am ddod i'r cyfarfod arbennig yma.

49. **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 – APEL O DAN ADRAN 78(i) – CAIS C24/0205/32/LL – tir ger Cae Capel, Botwnnog**
Dywedodd y Gadeiryddes fod y cyfarfod arbennig hwn wedi ei alw i drafod yr Apêl oedd wedi dod i law i godi tai ar dir Cae Capel, Botwnnog. Derbyniwyd y llythyr oddi wrth Reolwr Rheolaeth Datblygu Cyngor Gwynedd, dyddiedig 4ydd Awst, 2025, yn hysbysu fod apêl wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru parthed y cais uchod. 'Roedd gan y Cyngor 4 wythnos o ddyddiad y llythyr i anfon sylwadau ar y cyfryw.
Mynegwyd siomiant fod Apêl wedi ei wneud gan yr ymgeisydd a **phenderfynwyd** anfon sylwadau pellach at Lywodraeth Cymru. Mae'r llythyr anfonwyd yn ffurfio rhan o'r cofnodion hyn.
(Nodyn – addawodd Y Cynghorydd Sion Williams y byddai'n paratoi drafft o lythyr fel bod pob aelod yn gallu rhoi ei f(b)arn cyn i'r cyfryw gael ei anfon ymlaen – diolchwyd iddo).

50. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Cyflwynwyd y ceisiadau isod i sylw'r Cyngor:
(a)Cais cynllunio C25/0543/32/DT – cais am estyniad unllawr yng Nghartrefle, Llangwnnadl. (Noder fod dau o'r aelodau lleol wedi datgan dim gwrthwynebiad i'r cais cyn y cyfarfod hwn).
(b)Cais cynllunio C25/0557/32/DT – cais i ddymchwel 'lean-to' a chodi estyniad cefn ynghlwm i adeilad allanol. Rheoleiddio rhesiad o baneli solar ac ail gyfeirio llwybr cyhoeddus – Lleiniau, Llangwnnadl.
Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais.

51. **AWDURDOD I DALU**
Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn :
Cyngor Gwynedd – gwasanaeth archwilio mewnol
ar gyfer 2023/24 £390.00 + TAW (siec 200873)
Adroddwyd ymhellach fod y Gadeiryddes yn unol â'r hawl roddwyd iddi yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf, 2025, wedi awdurdodi talu'r Cynghorydd Glyn Roberts am baent i baentio'r meinciau £54.99 (siec 200872)

52. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**
Derbyniwyd cais gan Reolwraig y Feddygfa. am i'r wybodaeth ganlynol gael ei wneud yn gyhoeddus, fod y Fferyllfa yn cau am 5.00 y.h. bob noson o hyn ymlaen. a 4.00 y.h. ar Nos Wener. **Nodwyd y cais.**

53. GORYRRU AR ALLT MELLTEYRN

Cyflwynwyd pryder am y goryrru ym mhentref Sarn Mellteyrn gan Y Cynghorydd Elin Hughes. Trafodwyd y broblem a **phenderfynwyd** gofyn i Mabon ap Gwynfor yr Aelod Seneddol ddod i gyfarfod o'r Cyngor fel fod yr aelodau yn gallu mynegi eu pryderon, ac os yn bosibl, iddo ddod i'r pentref yn y bore rhwng 8 – 9.
Hefyd ceisio cael barbio'r tyfiant o amgylch yr arwyddion 20 mya.

54. PWYSAU DŴR ISEL

Penderfynwyd anfon gair at Dŵr Cymru yn mynegi pryder am y pwysau dŵr isel ym Motwnnog.

55. CAIS CYNLLUNIO WAUN LYDAN, PENYGROESLON

Tynnwyd sylw fod Swyddogion Cynllunio wedi caniatau cais C25/0430/32/RC – cais i ddiddymu amod person lleol yn ymwneud a chodi tŷ o dan gyfeirnod 2/12/44B ar dir ger Angorfa, Bryncroes – Waen Lydan, Pengroeslon.
Penderfynwyd datgan pryder fod hyn wedi digwydd a gofyn am esboniad llawn beth a olygir gyda amod person lleol/amaethyddol ar benderfyniadau cynllunio.

56. MANDAD Y BANC

Adroddodd y Clarc iddi gael archwiliad o'r cyfrifon gan yr HSBC ac iddi gael ar ddeall fod rhai oedd yn arwyddo'r sieciau wedi ymddeol o'r Cyngor a gofynnodd am hawl i gyflwyno mandad banc newydd.
Penderfynwyd awdurdodi'r Cynghorydd Carys H. Evans, Glenys Williams a'r Clarc i arwyddo sieciau'r ddau gyfrif (unrhyw ddwy i arwyddo ar y tro).